# HARRIS, SOLOMON (1726 - 1785), gweinidog Ariaidd ac athro coleg

**Enw:** Solomon Harris
**Dyddiad geni:** 1726
**Dyddiad marw:** 1785
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Ariaidd ac athro coleg
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Thomas Oswald Williams

Ganwyd yn Cilgwyn, Sir Aberteifi, 21 Chwefror 1726. Fe'i haddysgwyd gan y Parch. Timothy Davis, Cilgwyn a Chaeronnen, ei weinidog, digon tebyg, ac yng Ngholeg Caerfyrddin (1746-1750). Fe'i cynorthwyid yn y coleg gan y Bwrdd Cynulleidfaol. Yn 1750 derbyniodd alwad i eglwys Bresbyteraidd Abertawe, ac fe'i hordeiniwyd yno 4 Medi 1751. Agorodd ysgol gyda chynhorthwy John Bache yn nechrau 1753, a chadwodd hi bron drwy gydol ei weinidogaeth. Wedi cau Coleg Caerfyrddin yn Rhydygors, apwyntiwyd ef yn brifathro gan symud y coleg ato i Abertawe. Ychydig oedd nifer y myfyrwyr, a bu Harris farw ymhen blwyddyn.

Maentumir mai ef a droes feddwl y gynulleidfa gyntaf at syniadau Undodaidd. Mynnir mai Calfin ydoedd ar y dechrau, ond nid Calfinaidd syniadau Timothy Davis nac eglwysi Cilgwyn a Chaeronnen. Awgrymir ei fod yn Ariad cyn 1776 pan gydweithredodd â Lewis Rees, Mynydd-bach, i sefydlu cynulleidfa Gymraeg Annibynnol yn Abertawe. Yn llythyrau Trefeca (yn Ll.G.C.) sonnir am Solomon Harris yn awgrymu bod rheswm yng ngolau'r efengyl yn ddigon i ddwyn dynion i iachawdwriaeth. Cyhoeddodd bregeth Gymraeg - *Ystyriaethau ar anchwliadwy olud Crist* - 1774, a phregeth Saesneg yn 1783. Bu farw 15 Awst 1785.

## Awdur

**Y Parchedig Thomas Oswald Williams**, (1888 - 1965)

## Ffynonellau


*Yr Ymofynnydd*, Tachwedd 1900, 258-9

*The Presbyterian Fund and Dr. Williams' Trust* (1885), 67

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iv, 82

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Ceredigion* (1869)

*Y Beiriniad* ii, 325

Charles Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister* (1911), 18-20


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734404


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu